## CYPE(5)-23-20 - Papur i'w nodi 4

Senedd Cymru
**Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg**
—
Welsh Parliament
**Children, Young People and Education Committee**

---

Philip Blaker, Prif Weithredwr Cymwysterau Cymru

Dyddiad | Date: 23 Medi 2020

Pwnc | Subject: **Y Bil Cwricwlwm ac Asesu (Cymru)**

Annwyl Philip,

Diolch am ddod i gyfarfod y Pwyllgor wythnos diwethaf, ynghyd â'ch cydweithiwr Emyr George, i roi tystiolaeth ar ran Cymwysterau Cymru ynghylch egwyddorion cyffredinol y Bil Cwricwlwm ac Asesu (Cymru).

Nid oedd amser i drafod rhai cwestiynau yn ystod y sesiwn. Rwyf wedi cynnwys y cwestiynau hyn yn yr atodiad i'r llythyr hwn a byddwn yn ddiolchgar pe gallech anfon ymateb ysgrifenedig iddynt erbyn 8 Hydref 2020 i helpu i lywio ein gwaith craffu yng nghwmni'r Gweinidog yn nes ymlaen y mis hwnnw.

Yn gywir,

**Lynne Neagle AS**
**Cadeirydd**

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu Saesneg | We welcome correspondence in Welsh or English.

**Senedd Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
SeneddPPIA@senedd.cymru
0300 200 6565

**Welsh Parliament**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
SeneddCYPE@senedd.wales
0300 200 6565

## ATODIAD

**Y BIL CWRICWLWM AC ASESU: CREFYDD, GWERTHOEDD A MOESEG**

Mae'r darpariaethau yn y Bil ynghylch Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg yn golygu ei bod hi'n debygol y bydd dwy fersiwn wahanol o wersi Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg yn cael eu haddysgu mewn ysgolion ledled Cymru. Mae disgwyl i ysgolion cymunedol ac ysgolion nad ydynt yn grefyddol eu natur addysgu Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg gan dalu sylw i'r maes llafur cytunedig. Bydd disgwyl i ysgolion gwirfoddol a reolir sy'n grefyddol eu natur addysgu Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg gan dalu sylw i'r maes llafur cytunedig oni bai bod rhiant yn gofyn bod ei blentyn yn dysgu am Grefydd, Gwerthoedd a Moeseg yn unol â gweithredoedd ymddiriedolaeth yr ysgol neu ddaliadau'r ysgol o ran ffydd (hynny yw, Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg enwadol). Bydd ysgolion gwirfoddol a gynorthwyir yn addysgu Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg ar sail enwadol yn ddiofyn oni bai bod rhiant yn gofyn bod ei blentyn yn dysgu am Grefydd, Gwerthoedd a Moeseg mewn modd sy'n cyd-fynd â'r maes llafur cytunedig.

- Beth yw goblygiadau y ddarpariaeth debygol o fwy nag un math o wersi Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg o ran cymwysterau yn y ddisgyblaeth hon?

**Y BIL CWRICWLWM AC ASESU: Y GYMRAEG**

Mae'r Bil yn sefydlu un continwwm ar gyfer dysgu'r Gymraeg ym mhob ysgol, gan gael gwared ar y gwahaniaethu presennol rhwng Cymraeg iaith gyntaf a Chymraeg ail iaith.

- Sut y bydd cymwysterau yn y Gymraeg yn cyd-fynd â'r gwahanol gamau y bydd dysgwyr yn debygol o fod wedi'u cyrraedd ar hyd y continwwm o ran y Gymraeg?

- A fydd un cymhwyster o ran y Gymraeg neu a fydd angen dwy lefel o gymwysterau, gan ddibynnu ar hyfedredd y dysgwr yn y Gymraeg?

**CYNLLUNIO AR GYFER CYMWYSTERAU YN EHANGACH**

Mae eich tystiolaeth ysgrifenedig yn nodi bod y gwaith o ddatblygu a chyhoeddi'r Cwricwlwm newydd i Gymru wedi'ch sbarduno i edrych ar sut y bydd angen i gymwysterau ar gyfer pobl ifanc 14 ac 16 oed newid. Y rheswm am hyn, yn eich barn chi, yw i fodloni nodau ac amcanion y cwricwlwm newydd ac ymateb i anghenion y dyfodol. Rydych hefyd yn amlinellu'r gwaith rydych wedi'i wneud hyd yma ar y broses lefel uchel o lunio cymwysterau'r dyfodol, a'r gwaith sydd eto i'w wneud.

Yn eich tystiolaeth lafar, dywedoch fod y gwaith ymgysylltu rydych wedi'i wneud hyd yma yn awgrymu tueddiad i ffafrio parhau i strwythuro cymwysterau yn bennaf o amgylch disgyblaethau pwnc, yn hytrach na chael cymwysterau unigol sy'n ceisio cwmpasu maes cyfan o ddysgu a phrofiad. Fodd bynnag, gwnaethoch hefyd awgrymu bod cyfleoedd i ddatblygu cymwysterau mwy holistig ac integredig ochr yn ochr â'r cymwysterau sy'n benodol i bynciau arbennig.

- A allwch roi rhagor o fanylion, ar yr adeg hon, am ffurf y TGAU newydd yn ymarferol yn eich tyb chi, gan nodi beth fydd unrhyw ymgynghoriad yn y dyfodol yn ei drafod (hynny yw, a fydd yr ymgynghoriad yn amlinellu'r opsiynau ddylai fod ar gael i bobl ifanc, neu a fydd yn canolbwyntio ar y cysyniadau y bydd unrhyw ddull newydd wedi'u seilio arnynt)?

**ASESU DIGIDOL**

Yn ystod ein cyfarfod ar 17 Medi, dywedoch yr hyn a ganlyn ynghylch asesu:

> “There are a number of things that we would like to progress. These are things that we were already thinking about, but maybe they should be accelerated in the thinking. Simple things like digital assessment—online assessment through tests that are delivered on screen, can be delivered remotely, can be delivered in schools, can be delivered on demand, so that you don't have the logistical issues of trying to get 200 young people into a room with computers at the same time—are all things that we're starting to think about in a more concerted way. And they're things that we'll be looking to consult on next year.”

- A allwch roi rhagor o fanylion am eich gwaith hyd yma ar rôl asesu digidol yng nghwricwlwm y dyfodol, gan nodi sut y gallai hyn fod yn rhan o’r trefniadau ar gyfer dyfarnu cymwysterau yn 2021 (er enghraifft, fel rhan o’r ymateb i’r anawsterau a achoswyd gan COVID-19)?